Rhif: WG43058

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar gyllid yn y dyfodol ar gyfer y Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Tachwedd 2021

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-601-7

# Cynnwys

Cefndir .......... 3
Manylion yr ymgynghoriad .......... 4
Crynodeb o'r ymatebion .......... 5
Cwestiwn 1 .......... 5
Cwestiwn 2 .......... 7
Cwestiwn 3 .......... 8
Cwestiwn 4 .......... 9
Cwestiwn 5 .......... 11
Cwestiwn 6 .......... 12
Cwestiwn 7 .......... 14
Cwestiwn 8 .......... 16
Cwestiwn 9 .......... 18
Cwestiwn 10 .......... 19
Cwestiwn 11 .......... 20
Atodiadau .......... 21

## Cefndir

Lansiwyd y Rhaglen bresennol ar gyfer Ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant fis Gorffennaf 2016. Fe'i datblygwyd i gefnogi Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2016 - 20 a nodweddion gwarchodedig yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cyfanswm cyllideb y rhaglen ar gyfer 2020-21 yw £1.6 miliwn.  Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cynnig grantiau i bedwar sefydliad cynrychioliadol ac i dri Phrosiect Cynhwysiant fel a ganlyn:

**Grantiau i gyrff cynrychioliadol a'r asiantaeth arweiniol ar gyfer pob un:**

- Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan – y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- Cydraddoldeb LGBT yng Nghymru – Stonewall Cymru
- Gyrru Hawliau Anabledd Ymlaen yng Nghymru - Anabledd Cymru
- Prosiect Cydraddoldeb Rhywiol Cymru Gyfan – Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru

**Prosiectau cynhwysiant (gwasanaethau wedi'u contractio) ac asiantaethau arweiniol**

- Teithio Ymlaen, cefnogi plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr – Tros Gynnal Plant Cymru
- Y Rhaglen Hawliau Lloches – Cyngor Ffoaduriaid Cymru, mewn partneriaeth â Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Tros Gynnal Plant Cymru, BAWSO, a Chyfiawnder Lloches
- Y Canolfan Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru Gyfan – Cymorth i Ddioddefwyr Cymru

Ar ôl y broses o fidio am grantiau a chaffael, dechreuodd y rhaglen ar 1 Ebrill 2017, am gyfnod cychwynnol o dair blynedd.  Cafodd y cyfnod ei ymestyn ac erbyn hyn mae i fod i ddod i ben ar 30 Medi 2021.

Gan fod y Cynllun hefyd i fod i gynnwys arian o fis Medi 2021 a fydd ar gael i sefydliadau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â rhai eraill gyda'r nodweddion gwarchodedig o Hil, Anabledd a Rhywedd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sylwadau ynghylch ffurf y pecyn ariannu yn y dyfodol.

## Manylion yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi gofyn am gyngor ac arweiniad gan randdeiliaid, gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau a chan unigolion a chymunedau sydd un ai'n derbyn y gwasanaethau hynny neu eu hangen, ynghylch beth, os o gwbl, y dylid eu newid yn y Rhaglen Ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Gofynnwyd am sylwadau ar y meysydd canlynol:

- Materion ynghylch y rhaglen ariannu
- Y cyfnod ariannu
- Rhannu'r arian
- Parhad y gwasanaethau presennol ar gyfer grwpiau penodol
- Rhannu cyllidebau
- Aliniad gyda Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024
- Cydweithio
- Aliniad gyda chynlluniau cydraddoldeb penodol, megis Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, Cydraddoldeb Hiliol ac LGBTQ+
- Effeithiau ar y Gymraeg

Rhedodd yr ymgynghoriad am naw wythnos o 15 Chwefror 2021 tan 16 Ebrill 2021. Roedd yna sawl ffordd i randdeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad.

- Trwy ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno trwy e-bost neu trwy'r post
- Trwy ffurflen ymateb hawdd ei darllen y gellid ei chyflwyno trwy e-bost neu trwy'r post
- Trwy borth ar lein
- Trwy un o'r digwyddiadau ymgynghori digidol

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 3 oddi wrth unigolion, 22 o'r drydedd sector, 13 oddi wrth gyrff cyhoeddus ac un gan gwmni yn y sector preifat. Mae rhestr lawn o ymatebwyr i'w gweld yn yr Atodiad ble rhoddwyd cymeradwyaeth.
- Ymatebodd 23 o sefydliadau drwy borth ar lein, anfonodd 3 lythyrau, ymatebodd 2 trwy'r ffurflen hawdd ei darllen ac 11 trwy e-bost.

Yn ogystal, cymerwyd nodiadau ym mhob un o'r digwyddiadau ymgynghori digidol, gyda 16 o unigolion yn bresennol, ac mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

## Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n ystyried fod y ddogfen hon yn crynhoi'r prif faterion y dylid eu hystyried ynghylch y rhaglen ariannu hon? Cofiwch amlinellu unrhyw faterion rydych chi'n ystyried sydd heb eu cynnwys neu sydd angen sylw pellach.**

Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno fod y prif faterion wedi'u crynhoi yn y ddogfen. Roedd dau ymatebwr o'r farn y dylid taclo anghydraddoldebau'n gyffredinol, yn hytrach na blaenoriaethu anghyfiawnder i rai grwpiau ar draul grwpiau eraill.

Roedd yna sawl mater roedd yr ymatebwyr yn teimlo oedd angen rhagor o bwyslais, gan gynnwys:

- Anghydraddoldeb yn cael ei achosi gan dlodi, oherwydd bod teimlad fod amddifadedd economaidd yn sail i gymaint ohono.
- Gall cynhwysiant neu eithrio digidol yn aml fod am sawl rheswm e.e. Anabledd dysgu, band eang gwael, incwm isel.
- Sut y byddai'r cynllun yn ystyried cefnogi plant a phobl ifanc ac a ddylai sefydliadau craidd sy'n derbyn cefnogaeth ystyried gwahaniaethau rhyngblethedd pobl ifanc.
- Cefn Gwlad – "Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig mewn mwy o berygl o fod yn unig. Yn aml iawn, nid yw'r grwpiau hyn yn cael eu cynrychioli'n ffurfiol felly mae gofyn cael mwy o gefnogaeth ymestyn allan mewn cymunedau gwledig."

Cododd cydraddoldeb i ferched ei ben mewn chwe ymateb fel maes sydd angen rhagor o sylw, o ganlyniad i lofruddiaeth Sarah Everard ac effeithiau COVID-19 ar ferched. Amlygwyd hefyd y defnydd o 'ryw' yn lle 'rhywedd' yn y ddogfen fel rhywbeth sydd angen ei ystyried ynghylch cydraddoldeb merched.

"Un o'r prif broblemau sy'n ymddangos ei bod yn cael ei anwybyddu yw perthnasedd rhyw i ormesu merched a phrofiad o drais a gwahaniaethu. Rhyw, nid rhywedd, yw'r nodwedd warchodedig ac mae merched yn haeddu cael eu hawliau wedi'u diogelu."

Amlygodd pum sefydliad y dylid canolbwyntio mwy ar effeithiau COVID-19 – o ran gwaethygu anghydraddoldebau yng Nghymru ond hefyd ei effaith yn creu'r ymchwydd anferth yn y galw am wasanaethau ac effaith hynny ar sefydliadau sy'n darparu eu gwasanaethau yn effeithiol. Awgrymodd un elusen y dylid talu sylw i adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch effeithiau Covid-19 ar bobl ag anableddau yng Nghymru fel rhan o'r camau nesaf.

Amlygodd pedwar ymatebwr effeithiau Brexit, yn enwedig ar gymunedau'r UE yng Nghymru a'r effaith y mae'n ei gael ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb, fel maes sydd angen sylw pellach. "Er y cyfeirir at hyn, mae gennyn ni bryderon sut y bydd y gefnogaeth bresennol yn cael ei darparu i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd unwaith y bydd prosiectau sy'n canolbwyntio ar Breswylwyr Sefydlog y DU wedi dod i ben."

Nododd tri ymatebwr fod angen cydraddoldeb ieithyddol a 'chefnogaeth ddiwylliannol gymwys' ar gyfer y cymunedau amrywiol sydd yng Nghymru lle nad yw'r preswylwyr yn siarad Saesneg neu'n ei siarad fel ail iaith.


Roedd tri ymatebydd yn holi sut y bydd effeithiau'r ariannu'n cael ei fonitro ac awgrymu sut y gellid dyfarnu'r arian, o gofio am yr anghydraddoldebau rhanbarthol y dywedir sydd ledled Cymru.

Un bwlch posibl a nodwyd yw sut y mae ffocws ac iaith Gweinidogion y DU yn newid ynghylch cydraddoldeb. Roedd yr agwedd newydd a amlinellwyd gan Weinidog y DU dros Ferched a Chydraddoldebau fis Tachwedd 2020 yn cael ei gymharu gydag agwedd Llywodraeth Cymru sy'n dal i ganolbwyntio ar gydraddoldeb, llwyddo i gael cydraddoldeb canlyniadau a defnyddio offer prif ffrydio fel asesiadau effeithiau cydraddoldeb wrth ffurfio polisi a dylunio rhaglenni.

Awgrymodd un sefydliad y dylid ychwanegu 'crefydd' at y meysydd sydd fwyaf angen arian o gofio am y cynnydd mewn Islamoffobia a gwrth Iddewiaeth ac awgrymodd sefydliad arall y dylid ychwanegu 'ffydd' at 'grefydd neu gred' fel nodwedd warchodedig.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys hysbysu awdurdodau lleol pa sefydliadau sydd wedi derbyn arian a pha wasanaethau a fydd yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim i gyrff cyhoeddus, a'i gwneud yn rheol fod yn rhaid i sefydliadau sy'n derbyn grantiau gysylltu gyda swyddogion ym mhob awdurdod lleol i sicrhau canlyniadau a rhwystro dyblygu ymdrechion.

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i gael rhaglen hirach, bum mlynedd. Os nad ydych chi, amlinellwch eich rhesymau'n gryno.**





Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (72%) yn fodlon cefnogi'r bwriad i gael rhaglen bum mlynedd, gan sylweddoli fod y rhai sy'n derbyn yr arian angen sicrwydd a sefydlogrwydd ac yn cydnabod hefyd bod yn rhaid ariannu yn y tymor hir i gael y canlyniadau gorau.
Ond, er yn cefnogi'r cyfnod hwy, roedd pedwar ymatebydd hefyd yn cydnabod manteision o gael cylch ariannu llai i fod yn fwy ystwyth.

Roedd naw ymatebwr yn awgrymu y byddai o fantais cael ychydig o hyblygrwydd pe byddai'r cyfnodau'n cael eu penderfynu'n unigol ac awgrymodd sawl un mai'r sefyllfa ddelfrydol fyddai trefniant cymysg ar gyfer mentrau tymor hir a rhai tymor hir.

Y prif reswm pam nad oedd ymatebwyr yn cefnogi rhaglen bum mlynedd oedd oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd allanol, megis y pandemig COVID, a mynegodd pum ymatebydd bryderon y byddai cyfnod hirach yn cau sefydliadau llawr gwlad allan o'r cynllun.

Roedd un sefydliad o'r farn na allai gyflwyno ateb ystyrlon heb wybod effeithiau'r ariannu hyd yma dros y cyfnod o dan sylw.

**Cwestiwn 3 - A fyddech chi'n cefnogi Llywodraeth Cymru pe byddai'n rhoi cyllid craidd i rai sefydliadau cydraddoldeb strategol? Os nad ydych chi, amlinellwch eich rhesymau'n gryno.**




Atebodd 54% o ymatebwyr y bydden nhw'n cefnogi Llywodraeth Cymru pe byddai'n rhoi cyllid craidd i rai sefydliadau cydraddoldeb strategol.


Fodd bynnag, i 53% o ymatebwyr, roedd y gefnogaeth yn ddibynnol ar fod yn hollol dryloyw ynghylch pam fod sefydliad yn cael ei ddewis i dderbyn cyllid craidd, tystiolaeth o'r gwaith y mae wedi'i wneud a thystiolaeth o ganlyniadau positif.

Pwysleisiodd 8% o ymatebwyr fod sefydliadau'r trydydd sector yn aml yn cael trafferth i gael cyllid gan ei fod, fel arfer, yn brosiect-benodol, felly byddai dyraniad o gyllid craidd o fantais. Mae'r 5% a atebodd 'na' yn bryderus y gallai un sefydliad gael ei dewis i gynrychioli carfan gyfan o bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

Roedd 10% hefyd yn bryderus a fyddai'r sefydliadau a fyddai wedi'u dewis yn gallu dal i fod yn ddiduedd.

Roedd amodau daearyddol hefyd yn cael eu hamlygu gan ymatebwyr, gyda 5% yn dweud y dylai unrhyw sefydliad sy'n cael ei ddewis weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol i bob ardal yng Nghymru.

**Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cefnogi parhau gyda'r gwasanaethau presennol ar gyfer grwpiau penodol? Ydych chi'n meddwl fod yna wasanaethau eraill y dylid eu darparu yn y dyfodol? Os nad oes, amlinellwch eich rhesymau'n gryno.**




Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (74%) yn dweud eu bod yn cefnogi parhau'r gyda'r gwasanaethau presennol ar gyfer grwpiau penodol, cyn belled â bod yna ddigon o dystiolaeth gredadwy eu bod yn gweithio.

Fodd bynnag, roedd 8% yn dweud bod eu cefnogaeth yn amodol ar gael sicrwydd y byddai arian a gwasanaethau ar gael ym mhob ardal o Gymru, gan fynegi pryder fod de Cymru'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.

Roedd 8% o ymatebwyr yn bryderus ynghylch diffyg gwasanaethau cyfieithu/dehongli. Roedd yna bryder hefyd y byddai ymestyn ymhellach gronfa sydd eisoes yn fach yn achosi mwy o niwed.

"Mae gwaith y Rhaglen Hawliau Ceiswyr Lloches yn cael effaith enfawr ar fywydau ceiswyr lloches yng Nghymru. Gan fod y gronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn gymharol fychan, mae partneriaid yn bryderus y byddai gwasanaethau'n cael eu glastwreiddio pe byddai'r gronfa cael ei lledaenu ymhellach ymysg grwpiau penodol eraill.

Ond, roedd 42% o ymatebwyr o'r farn nad oes yna sbectrwm ddigon eang o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau, dioddefwyr troseddau casineb, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymuned LGBTQ+. Roedd 5% o ymatebwyr hefyd yn bryderus ynghylch y deillion a oedd, yn eu barn nhw, wedi cael eu hynysu'n llwyr yn ystod y pandemig, gyda llythyrau brechu'n cael eu hanfon ar bapur ayb.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys:

- Gwasanaethau cyfieithu a dehongli
- Mwy o gysylltiad gyda grwpiau sydd prin yn cael clywed, yn enwedig mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle mae yna lai ohonyn nhw a dim rhwydweithiau/trefniadau cefnogi ar hyn o bryd.
- Datblygu Hyrwyddwyr Cymunedol a fydd yn gallu canfod tensiynau cymunedol, cefnogi awdurdodau lleol/ cyrff cyhoeddus i gysylltu gyda phobl gyda nodweddion

gwarchodedig / pobl sy'n dioddef anfanteision cymdeithasol ac economaidd ac a fyddai'n gallu cefnogi cyrff cyhoeddus i gyfathrebu'n effeithiol a chyrraedd grwpiau penodol sydd prin yn cael eu clywed.

- Hyfforddiant – darparu hyfforddiant ar sail “Dim cymorth gan arian cyhoeddus”.
- Hyfforddi Hyrwyddwyr Digidol a fydd yn gallu cefnogi’r rhai sydd wedi’u heithrio’n ddigidol
- Gweithredu'n ehangach ynghylch cydraddoldeb ym maes iechyd meddwl a llesiant. Ar gyfer pobl ag anableddau sy’n teimlo eu bod wedi’u gadael ar ôl, yn enwedig yn ystod y pandemig, gydag enghreifftiau o bobl ddall yn derbyn llythyrau ynghylch brechu ayb ar bapur.
- Addysg mewn ysgolion – sefydlu Modelau Rôl Amrywiaeth a fyddai’n gweithio i greu mannau diogel i drafod gwahaniaeth ac i ystyried eu rôl mewn creu byd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn. Cynnal gweithdai i gyflwyno modelau LGBTQ+ a modelau rôl tebyg a fyddai’n sôn am eu profiadau byw. Roedd gwasanaethau’n amrywio o hyfforddi staff, gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag hyfforddiant i rieni a llywodraethwyr.

**Cwestiwn 5 – Pa gydbwysedd ddylai fod rhwng gwasanaethau sy'n cael eu caffael, cyllid craidd a phrosiectau yn cael eu hariannu gan grantiau. Sut y byddech chi'n rhannu'r gyllideb (£1.6 miliwn ar hyn o bryd) rhwng y meysydd hyn?**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio, yn ôl pa rai oedd yn cael eu cyfrif yn fwyaf haeddiannol o gael arian.

Awgrymodd 10% o ymatebwyr ffyrdd o rannu'r arian sydd ar gael, ond roedd eraill y gyndyn o leisio barn oherwydd diffyg gwybodaeth ynghylch pa wasanaethau a fyddai'n derbyn yr arian.

Roedd 16% o ymatebwyr yn awgrymu y dylid rhannu'r arian ar sail lle mae'r angen a 10% yn bryderus nad yw'r ffigwr a awgrymir ar gyfer ariannu'n ddigonol.

Enghreifftiau o sut y dylid rhannu'r arian


"Dylid pwysoli arian fwy tuag at brosiectau sy'n derbyn grant (40%) ac yna'n gyfartal rhwng gwasanaethau sy'n cael eu caffael (30%) a chyllid craidd (30%). Rydyn ni'n credu y byddai hyn yn gytbwys, yn deg ac yn gymesur."

"Ein rhesymeg dros bwysoli arian tuag at brosiectau sy'n derbyn grant yw eu bod yn debyg o fod yn fychan ac yn amrywiol, a fydd yn galluogi targedu prosiectau ar faterion cydraddoldeb penodol".

"Uchafswm o 10% ar gyfer cyllid craidd - £160,000. Rhannu'r gweddill yn ôl pa fodel(au) comisiynu a ddefnyddir. Os yn Gynghrair, yna gellid cael cymysgedd o brosiectau sy'n cael eu caffael a rhai sy'n derbyn grantiau (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o fewn y Gynghrair o fewn y gyllideb. Os yn gonsortia neu'n sefydliadau Angor, yna efallai y bydd angen dulliau eraill."

"Arian grant - 50%, Gwasanaethau sy'n cael eu caffael - 30%, Cyllid craidd - 20%."

**Cwestiwn 6 – ydych chi’n cytuno y dylai’r arian gyd-fynd â’r amcanion sydd yng Nghynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024?**




Dywedodd 56% o ymatebwyr eu bod yn cytuno, gan ddweud y dylai'r arian gyd-fynd â'r amcanion yng Nghynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd nesaf.  Un egwyddor oedd yn codi'i phen yna aml oedd y byddai hyn yn sicrhau y byddai pob gwasanaeth yn anelu at yr un nod cyffredin o gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Roedd 10% o sefydliadau yn argymell, trwy wneud hyn, y dylid bidio am arian a dangos sut y byddai'r gweithgaredd yn cefnogi’r amcanion hynny, gan gredu y dylai'r arian gyd-fynd â’r Ddyletswydd Gymdeithasol ac Economaidd ac â’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mewn sawl achos (28%) roedd cytundeb ar ariannu’n cael ei seilio ar sawl ffactor megis ymrwymiad i ddadansoddi'n barhaus effeithiolrwydd y cynlluniau o ran cyrraedd amcanion a ffurfio canlyniadau positif i gymunedau.

Roedd 12% o ymatebwyr o'r farn y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y prosesau comisiynu a chaffael ar gyfer y cyfnod ar ôl 2024 pan ddaw cynlluniau newydd i rym a hefyd y dylid gallu addasu ar gyfer '*unrhyw broblem sy'n codi nad yw'n cael ei hadlewyrchu yng “Nghynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru".*


Amlygwyd hefyd y dylid adolygu patrymau ariannu ac amcanion i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ar ôl COVID-19.

Thema gyffredin oedd yn cael ei hadrodd gan dri ymatebwr oedd y dylai ariannu alluogi sefydliadau craidd i weithio gyda, a thalu sylw i, anghenion poblogaethau penodol gyda nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n profi anfanteision cymdeithasol ac economaidd. Roedd yr atebion yn adlewyrchu’r angen targedu Awdurdodau Lleol a'u hannog i sicrhau fod eu hamcanion yn cyd-fynd gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru fel nad ar lefel genedlaethol yn unig y mae problemau’n cael eu taclo.

I’r 5% nad oedd yn cytuno y dylai'r arian gyd-fynd gydag amcanion Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, roedd y rhesymau’n canolbwyntio ar

gamddefnyddio diffiniadau 'rhyw’ a ‘rhywedd’, oedd yn arwain at y gred nad yw'r Cynllun Gweithredu'n cyd-fynd â deddf cydraddoldeb.

**Cwestiwn 7 - Ydych chi o'r farn y dylid clustnodi peth o'r arian i gefnogi gweithredu cydraddoldeb a chydweithio'n ehangach rhwng sefydliadau cydraddoldeb?**




Atebodd 56% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno y dylid clustnodi arian i gefnogi gwaith cydraddoldeb a chydweithio'n ehangach rhwng sefydliadau cydraddoldeb, a gosod canllawiau a disgwyliadau clir fel bod sefydliadau'n deall yn glir sut i weinyddu hyn.

Roedd y syniad fod arian o'r natur hyn yn bwysicach fyth mewn sefydlu cydlyniad cymdeithasol, yn enwedig o gofio am COVID-19 a'i gyfyngiadau cenedlaethol, yn cael ei gyfleu gan 10% o ymatebwyr, gyda phwyslais penodol ar stres ariannol a'r gofyn am ofal, eiriolaeth a gwasanaethau i gymunedau ar y cyrion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Un rheswm cyffredin dros gytuno a nodwyd gan fwy na hanner yr ymatebwyr, oedd y dylid canolbwyntio'n benodol ar ryngblethedd gan gynnwys, hil, rhywedd ac anabledd, sy'n nod allweddol gan Lywodraeth Cymru. Cytunai 30% o ymatebwyr y bydd y gallu i ddarparu safbwyntiau rhyngblethedd yn hanfodol bwysig wrth dalu sylw i'r hyn sy'n achosi, ac yn effeithio ar anghydraddoldeb, gan gynnwys anfantais cymdeithasol ac economaidd sy'n aml yn cyd-fynd â ffurfiau eraill o ormesu a gwahaniaethu.

Dywedodd dau ymatebydd fod eu llwyddiant yn y gorffennol o ganlyniad i'r ariannu presennol yn rheswm dros glustnodi rhagor o arian.

Er yn cytuno, roedd ymatebwyr yn gosod sawl amod ar eu hymatebion, gan gynnwys y dylid diffinio'n glir beth yw ystyr cydraddoldeb a gweithio ar y cyd yn y cyd-destun hwn. Roedd grwpiau eraill yn crybwyll bod angen amlinelliad clir ynghylch sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio, faint o'r gyllideb arfaethedig fyddai'n cael ei chlustnodi ac yn dweud y byddai o gymorth pe byddai arian yn cael ei ymrwymo i themâu allweddol o anghydraddoldeb yn hytrach nag i nodweddion yn unig.


Roedd y rhai oedd yn anghytuno (10%) yn nodi y dylid canfod arian newydd yn hytrach na defnyddio arian presennol, ac, os bydd arian presennol yn cael ei ddefnyddio, yna dylid neilltuo'r rhan fwyaf i ddarparu gwasanaeth ac nid ar gyfer gweinyddiaeth a biwrocratiaeth sefydliadol. Byddai angen bod yn glir sut y byddai'r arian at y diben hwn yn cael ei ddefnyddio, a gofynnwyd hefyd faint o'r gyllideb a fyddai'n cael ei neilltuo.

Roedd y 13% o sefydliadau a oedd yn ansicr ynghylch rhoi arian i sefydliadau weithio ar y cyd, ond crybwyllwyd eu bod yn dal i gytuno y dylid gweithio ar y cyd mewn rhyw fodd. Dywedodd sefydliad y trydydd sector "*un elfen o'r broses fidio fyddai dangos ystyriaethau rhyngblethedd ac ymrwymiad neu'r anghenraid i weithio ar y cyd ar draws rhaglenni."*

Yn unol â'r uchod, roedd sefydliadau eraill yn y trydydd sector yn cytuno y dylai'r rhaglen ariannu fod yn broses deg a thryloyw ac y dylai grwpiau allu bidio am arian a bod terfyn ar hynny fesul sefydliad er mwyn sicrhau'r canlyniadau ehangaf posibl.  Argymhellwyd y dylai'r arian gael ei gyfeirio at grwpiau a phrosiectau newydd er mwyn i'r elusennau a grwpiau cymunedol hynny allu adeiladu'r un gwytnwch ag y mae elusennau eraill wedi gallu ei wneud o dan y cynllun hwn.

Syniad a gyflwynwyd gan un elusen er mwyn cynyddu'r gyllideb ar gyfer datblygu a chydweithredu oedd gweithio gydag arianwyr eraill megis y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Gymunedol i gael arian cyfatebol.   Y rheswm dros hyn oedd y byddai arian cyfatebol ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant yn galluogi arianwyr i rannu gwersi, cefnogi datblygiad polisi a meithrin mwy o allu yn y sector.

**Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r arian hwn gyd-fynd â'n cynlluniau cydraddoldeb penodol megis Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, Cydraddoldeb Hil ac LGBT+?**




Roedd 69% yn cytuno y dylai'r arian hwn gyd-fynd â'n cynlluniau cydraddoldeb penodol megis Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, Cydraddoldeb Hil ac LGBT+. Roedd y trydydd sector, yn ogystal ag awdurdodau lleol ymysg y rhai oedd yn cytuno heb resymau yn erbyn y bwriad.

Roedd y rhesymau dros gytuno'n cynnwys y ffaith ei fod yn adlewyrchu'r amcanion sydd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, y bydd yn hwyluso cyrraedd yr amcanion hynny ac yn amlygu ystyriaethau i fod o gymorth wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol.

Roedd ymatebwyr yn ailadrodd, yn ogystal ag alinio'r arian, fod angen dadansoddi'n barhaus pa mor effeithiol yw'r cynlluniau o ran arwain a ffurfio canlyniadau positif ar gyfer gwaith a thargedau yn y dyfodol. Dylid ystyried y blaenoriaethau a'r' newidiadau sy'n ymddangos yn yr amgylcheddau allanol a dylid bod ag agwedd hyblyg at gynllunio, yn cael ei fesur dros amser.

Yn ogystal ag agweddau positif at alinio ariannu, cyflwynwyd meysydd i'w hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys cydnabod rhyngblethedd, amrywiaeth a chynhwysiant ynghylch hil, rhywedd ac anabledd yn ogystal ag elfennau cymdeithasol ac economaidd mewn cymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Nodwyd hefyd y dylid gosod paramedrau cyllidebol clir ar gyfer darparu cynlluniau gweithredu. Awgrymodd ymatebwyr y bydd yn bwysig peidio â gwneud y broses ymgeisio am arian yn rhy gymhleth ac y dylai'r nodau allweddol, amcanion, dulliau cyfathrebu a'r arian sydd ar gael eu hamlinellu mewn ffordd glir a hawdd ei deall.
O safbwynt lleol yn benodol, nododd 12% o sefydliadau a chynghorau "nad oes neb yn adnabod eu cymunedau'n well na phobl leol ac nad yw cydlyniant cymunedol yn digwydd oni bai bod cymunedau'n cael eu galluogi.'

Felly, dylid canolbwyntio ar y cysylltiad a'r berthynas rhwng Awdurdodau Lleol, arweinwyr cydraddoldeb a phrosiectau sy'n cael eu hariannu er mwyn lleihau dyblygu mewn

prosiectau, gwneud y gorau o gyfleoedd i fanteisio ar wybodaeth leol ac ymateb i faterion sy’n codi.

Roedd 5% o gyfranogwyr yn anghytuno gydag alinio ariannu oherwydd natur anhyblyg y trefniadau a phryderon nad ydyn nhw'n talu sylw i anghenion cyfnewidiol unigolion. Argymhellodd dau sefydliad y dylid sefydlu strategaethau ar gyfer colli ariannu, recriwtio gwirfoddolwr a phrosesau ymgeisio i sicrhau fod pobl anabl yn gallu cymryd rhan ar delerau cyfartal. Nododd un yn benodol fod y Tasglu Anabledd arfaethedig yn gam pwysig ac yn un sydd angen agwedd gyd-gynhyrchiol lawn yn ogystal ag adnoddau digonol.

Mae un elusen o'r farn bendant nad oes ganddi ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i ffurfio barn ac yn credu bod y cynlluniau cydraddoldeb penodol wedi'u paratoi heb ymgynghori y tu hwnt i’r grwpiau a fydd yn debyg o gael arian i gynnal y gwaith. Mae’n amheus o ddiffyg cynllun gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb rhywiol a'i fframwaith ynghylch ei gysyniad 'niwlog' o rywedd.

Roedd yn cael ei gydnabod trwy bob rhan o'r atebion i'r arolwg y byddai agwedd resymegol i alinio cynlluniau cydraddoldeb yng Nghymru'n arwain at newidiadau sylfaenol. Fodd bynnag, roedd 7% o’r cyfranogwyr yn pwysleisio y dylid caniatáu i sefydliadau newid blaenoriaethau yn ôl y gofyn yn seiliedig ar anghenion rhai grwpiau o'r boblogaeth.

**Cwestiwn 9 - Fe hoffem ni gael eich barn ar ba effaith y bydd y cynigion hyn yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl defnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effaith ydych chi'n feddwl fyddai hynny? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Roedd 56% o sefydliadau'n cytuno nad oedden nhw'n meddwl y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith llai ffafriol ar y cyfleoedd sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dywedodd ymatebwyr eraill eu bod nhw, eisoes, wedi sefydlu polisïau ar gyfer y Gymraeg yn eu sefydliadau ac yn teimlo ei bod yn bwysig "cydnabod Safonau'r Gymraeg cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl wrth gomisiynu gwasanaethau cydraddoldeb a chynhwysiant." Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried sawl mater, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau cyfieithu, arian ar gyfer deunyddiau a gwasanaethau Cymraeg. "clustnodi" arian ar gyfer hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, rhagor o arian ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, deunyddiau a hyfforddiant i'w darparu yn Gymraeg a datblygu ymarferion da.

Nododd un sefydliad y dylid darparu i gynnig cyfle i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddysgu Cymraeg.

Roedden nhw hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyrwyddo ieithoedd eraill. Roedd un sefydliad yn benodol yn gryf o blaid y dylai gwasanaethau sefydliadol yng Nghymru fod ar gael yn ddwyieithog ond nad oedd yn cael digon o arian ar hyn o bryd i dalu costau hynny.

**Cwestiwn 10 - Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig gael eu ffurfio neu ei newid er mwyn effeithio'n bositif, neu gynyddu'r effeithiau positif, ar gyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Roedd gan sawl sefydliad awgrymiadau sut i gefnogi'r Gymraeg. Annog defnyddio consortia i chwilio am bartneriaid i gydweithio a fydd yn gallu cyfrannu tuag at ddefnyddio mwy o Gymraeg oedd un awgrym.

Awgrymodd un ymatebwr gynnwys y Gymraeg yn y meini prawf ar gyfer ymgeisio ac awgrymu ei bod yn ofynnol i sefydliadau gyfarfod â Safonau'r Gymraeg a dangos sut y byddan nhw'n hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o unrhyw gais.

Roedd awgrymiadau eraill oddi wrth ymatebwyr yn cynnwys y dylai contractau Cydraddoldeb a Chynhwysiant gael darpariaeth yn y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i Gleientiaid, dogfennau prosiectau i gael eu cyfieithu cyn eu rhyddhau, cyflwyniadau PowerPoint neu ar lein i fod yn ddwyieithog, gwasanaeth cyfieithu i fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd ar lein ac ystadegau'r Gymraeg i gael eu cadw fel rhan o broses monitro'r contract.

Wrth ystyried ffoaduriaid yng Nghymru, dywedodd un ymatebydd mai'r flaenoriaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid, nad oedd yn siarad Saesneg, fyddai dysgu Saesneg, gan mai Saesneg yw prif iaith Cymru a bydd eu bywoliaeth yn debyg o ddibynnu ar eu sgiliau mewn Saesneg.

Roedd costau gwneud gwasanaethau'n ddwyieithog yn bryder i rai ymatebwyr, yn enwedig dogfennau mwy: *"... gallai costau cyfieithu pamffled fod yn eithaf rhesymol, ond mae costau cyfieithu modiwlau cefnogi ar lein yn llawer uwch.*

**Cwestiwn 11 – Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i gyflwyno eich sylwadau:**

Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n dweud eu bod yn fodlon gyda'r cyfleoedd yr oedd yr ymgynghoriad wedi'i roi iddyn nhw i leisio eu hawgrymiadau a'u pryderon.

Roedd gan rai eraill awgrymiadau a phryderon eraill i'r codi. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ymgynghori'n uniongyrchol gyda phobl anabl ar raglenni a chynigion i wneud yn siŵr nad yw lleisiau'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn mynd ar goll.
- Cynyddu a datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau i wella canlyniadau tra'n lleihau costau.
- Sicrhau fod yr amgylchedd adeiledig a chludiant yn addas ar gyfer pobl rhannol ddall.
- Bod yn eglur ynghylch pwy a ddylai wireddu amcanion tebyg pan maen nhw eisoes yn bodoli yn y trydydd sector.
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i ddioddefwyr troseddau'n ymwneud â COVID-19.
- Cynyddu cyfranogaeth leol trwy gysylltu sefydliadau sy'n cael cefnogaeth trwy'r Rhaglen Ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant gydag Awdurdodau Lleol, er enghraifft, trwy Swyddogion Cydraddoldeb. Byddai hyn yn helpu i sicrhau fod y rhaglenni'n cael eu darparu lle mae eu hangen yn lleol, gan gynnwys darparu'r rhaglenni mewn siroedd mawr gwledig.
- Datblygu fframwaith fonitro ar gyfer monitro gwybodaeth ac adroddiadau y gellir eu rhannu gyda Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, a ddylai fod â rhan mewn ffurfio'r agenda.
- Mae'n rhaid cael newidiadau i arian craidd, megis mabwysiadu agwedd rhyngblethedd ar draws y rhaglen ariannu a grantiau a fydd yn cyd-fynd gydag argymhellion Adolygiad Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, Rhyddid a Hyblygrwydd a chynhwysiant Digidol.
- Sicrhau fod iechyd meddwl wrth galon polisïau ynghylch Arian yn y Dyfodol ar gyfer y Rhaglen Grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

## Atodiad

Rhestr o sefydliadu a ymatebodd ac a gytunodd i'w henwau gael eu cyhoeddi

1. Rhwydwaith Staff Cydraddoldeb Cyngor Sir Powys
2. Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
3. Cyngor Sir Ceredigion
4. Coleg Brenhinol Bydwragedd Cymru
5. Cynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
6. Rhwydwaith Cymunedau Diogelach Cymru
7. Chwarae Teg
8. Trivallis
9. Grŵp Pobl
10. Cyngor y Deillion Cymru
11. Cyngor Sir Ddinbych
12. Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
13. Cyngor Dinas Casnewydd
14. Chwaraeon Cymru
15. Cyngor Sir Bro Morgannwg
16. Carfan Cydgysylltwyr Cydlyniant ac Awdurdodau Gorllewin Gwent Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen.
17. Cyngor Sir y Fflint
18. Cymorth i Ddioddefwyr Cymru
19. Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
20. Chwarae Teg i Ferched Cymru
21. Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymdeithasol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru
22. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
23. LGBT Helpline Cymru
24. Cyngor Ffoaduriaid Cymru
25. RNIB Cymru
26. Cydraddoldeb Gwaed Cymru
27. Cynghorau Gwirfoddol Sirol De-ddwyrain Cymru
28. Merched Girls Cymru
29. Anabledd Cymru
30. Merched Cymru
31. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
32. Sefydliad Leonard Cheshire
33. WEN Cymru
34. Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
35. Cyngor Sir Caerfyrddin